# Defnyddio everolimus ar y cyd ag exemestane i drin canser datblygedig y fron ar ôl therapi endocrin

21 Rhagfyr 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir everolimus (Afinator), wedi'i roi gyda chyffur o'r enw exemestane. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer merched ar ôl y menopos sydd â chanser datblygedig y fron heb glefyd symptomatig ymysgarol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- mae'r canser yn dderbynnydd ffactor twf epidermol pobl 2 (HER2)-negatif
- mae'r canser yn dderbynnydd hormonau-positif, ac
- mae wedi dychwelyd neu waethygu ar ôl triniaeth gyda chyffur sy'n atalydd aromatase ansterodaidd.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych ganser datblygedig y fron heb glefyd symptomatig ymysgarol, a bod eich meddyg o'r farn mai everolimus yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu ei chael ar y GIG.

### Y cyflwr a'r driniaeth

Mae canser datblygedig y fron heb glefyd symptomatig ymysgarol yn fath o ganser sydd wedi lledaenu i'r meinweoedd o'i amgylch neu rannau eraill o'r corff, ond nad yw'n achosi symptomau o ganlyniad i hynny.

Mae HER2-negatif yn golygu bod lefelau isel o brotein o'r enw HER2 ar wyneb y celloedd canser. Mae'r protein yn effeithio ar dyfiant y canser.

I rai merched, mae'r hormonau oestrogen neu brogesteron yn ysgogi celloedd canser y fron i dyfu. Gelwir y math hwn o ganser y fron yn dderbynnydd hormonau-positif.

Mae everolimus yn arafu pa mor gyflym y mae'r celloedd canser yn tyfu ac yn lledaenu.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Gofal Canser y Fron, 0808 800 6000
- Breast Cancer Now, 0333 207 0300
- Breast Cancer UK, 0845 6801 322
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol) 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2318-2